RHIFYN 38 — HYDREF 2017

Cylchgrawn C.Ff.I. Ceredigion

# AR DÂN!














## YN Y RHIFYN YMA:

- SGWRS 'DA'R SWYDDOGION
- TEITHIAU TRAMOR
- RALI TREGARON
- DATHLIADAU
- CODI ARIAN
- CANLYNIADAU
- PWYLLGORAU

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.
www.yfc-ceredigion.org.uk

WWW.YFC-CEREDIGION.ORG.UK

# Sgwrs da'r Swyddogion

## Cadeirydd



**Enw:** Mererid Wyn Jones (Mer Siop)
**Clwb:** Cyn aelod o CFFI Felinfach
**Gwaith:** Swyddog Prosiect ac Ymgysylltu Gwastraff gyda Chyngor Sir Ceredigion
**Cwrs cyntaf, prif gwrs neu bwdin?** Pwdin bob tro!
**Petae ti'n cal byw mewn unrhyw wlad heblaw Cymru- ble fyddet ti'n dewis?** Nes i fwynhau fy nhrip gyda'r mudiad i Illinois yn yr Unol Daleithiau a byddem yn hapus iawn i fynd i fyw yn yr ardal yna.
**Be ti'n edrych mlan ato leni?** Y Rali – Rali Felinfach!!
**Pa sgil hoffet ti ei feistroli?** Gwnïo botwm – dwi'n anobeithiol gyda gwnïo!
**Os bydde dim rhaid i ti gysgu, be nele ti da dy amser sbar?** Mynd i nofio!
**Pa mor aml wyt ti'n cadw'n heini?** Ymarfer Rygbi un waith yr wythnos a gêm ar ambell ddydd Sul. Bydden i yn lico gwneud mwy ond ma' amser yn brin!
**Beth fydde dy gas swydd?** Gweithio gyda nadroedd!
**Wyt ti fel arfer yn gynnar neu'n hwyr?** Dwi'n trial bod yn gynnar ond fel arfer fyddai'n hwyr!

## Is-gadeirydd



**Enw:** Caryl Haf Jones
**Clwb:** Cyn aelod o Llanddewi Brefi
**Gwaith:** Rheolwraig CCF Tregaron
**Petae ti'n cal byw mewn unrhyw wlad heblaw Cymru- ble fyddet ti'n dewis?** Seland Newydd - er bo fi ddim erioed wedi bod na to!!
**Disgrifia dy hunan mewn 3 gair:** Hoffus, penderfynol, llawn bywyd (Ma hwnna'n 4 Caryl, ond na fe, gadw ni e i fynd tro ma!)
**Beth yw dy hoff ddiod?** Peint o lager neu lemonade!
**Be sy'n mynd dan dy groen di?** Pobl sydd ddim yn saff ar yr hewl - dwi yn 'roadrage!!' Neu rhywyn sy' ddim yn gweud diolch!
**Hoff ddilledyn?** Dillad bob dydd - cyfforddus a dim rhaid edrych yn ddeche!
**Pa mor aml ti'n cadw'n heini?** Amser tynnu'r gelyn tua 3 i 4 gwaith yr wthnos! A wedyn gaeaf nôl i 1!!
**Hoff atgof o'r C.Ff.I:** Gweld C.Ff.I Llanddewi Brefi yn ennill y rali am y tro cynta mewn 40 mlynedd a finne yn frenhines y sir!
**Wyt ti fel arfer yn gynnar neu'n hwyr?** Hwyr!!!

## Llywydd



**Enw:** Euros Davies

**Clwb:** Cyn aelod o Bontsian

**Gwaith:** adeiladwr a chynghorydd lleol Llanwenog

**Beth yw dy ffefryn, cwrs cyntaf, prif gwrs neu bwdin?** Prif gwrs!

**Petae ti'n cael byw mewn unrhyw wlad heblaw Cymru- ble fyddet ti'n dewis?** Seland Newydd

**Be ti'n edrych mlan ato leni?** Cyd-weithio a chefnogi aelodau'r mudiad

**Hoff ddiod:** Koppenberg mixed fruit

**Be sy'n mynd dan dy groen di?** Annibendod Sioned

## Is-lywydd



**Enw:** Milwyn Davies

**Clwb:** Cyn-aelod o C.Ff.I Trisant

**Gwaith:** Ffermio fferm Pantyrofyn

**Petae ti'n cal byw mewn unrhyw wlad heblaw Cymru- ble fyddet ti'n dewis?** Seland newydd—Ma Mari'r ferch mas na ar hyn o bryd!

**Cwrs cyntaf, prif gwrs neu bwdin?** Prif Gwrs - Stecen fel arfer

**Beth yw dy hoff ddiod?** Peint o Guiness

**Hoff atgof o'r C.Ff.I:** Ymarfer y ddrama blynydde nôl a chael gymaint o hwyl a chwerthin o'n i ffili bwrw mlan!

**Wyt ti fel arfer yn gynnar neu'n hwyr?** Fi'n trial bod yn gynnar bob amser!

**Be ti'n edrych mlan ato leni?** Y Pantomeims!

**Pa sgil hoffe ti feistroli?** Canu'n dda!

# RALI C.FF.I TREGARON A'R CYLCH



Cynhaliwyd y Rali eleni ar fferm odidog Dolyrychain drwy garedigrwydd teulu Davies a chynhaliwyd y ddawns ar fferm Caebwd drwy garedigrwydd Mr a Mrs Alun Jones. Yn y Rali, gwelwyd aelodau o bob cwr o'r sir yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, sydd heb os, yn ffenest siop i'r 18 o glybiau a wnaeth gystadlu. Trwy gydol y y dydd, roedd yna gystadlaethau yn dangos nifer helaeth o sgiliau – Chwaraeon oedd thema'r Rali eleni. Dyma restr o rhai o'r enillwyr:

**Coginio** – Sioned Owen a Delyth Williams, Lledrod
**Gosod Blodau** – Elliw Dafydd, Bro'r Dderi
**Crefft** – Sioned Morris, Llangwyryfon
**Cystadleuaeth yr Aelodau** – Llangwyryfon

**Arddangosfa Ffederasiwn** – Trisant
**Dylunio Cit Chwaraeon** – Felinfach
**Coedwigaeth** – Penparc
**Gêm y Cenedlaethau** – Llanddewi Brefi
**Gwisgo i Fyny** – Llanwenog
**Tablo** – Lledrod a Felinfach
**Gwneud Arwydd** – Llanddewi Brefi



**Cneifio Defaid**
**21 oed neu iau** – Steffan Jenkins, Llanwenog
**26 oed neu iau** – Dewi Jenkins, Talybont
**Tîm** – Talybont
**Trin Gwlân** – Angharad Davies, Trisant ac Eleri Lloyd-Jones, Pontsian;

**Canu** – Talybont
**Brwydr 'Lyp Sync'** – Llanwenog
**Arddangosfa'r Prif Gylch** – Llanddewi Brefi
**Dawnsio** – Felinfach
**Sylwebaeth Fyw** – Iwan Davies a Gareth Jones, Llanddewi Brefi
**Dyma Dy Fywyd** – Llangwyryfon

**Ysgrifennydd Clwb Gorau** – Helen Lewis, Llangwyryfon
**Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol** - Elin Haf Jones, Llanwenog
**Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn** – Caryl Vaughan, Llanddeiniol a Meira Lloyd, Llangeitho
**Aelod iau mwyaf gweithgar y flwyddyn** – Alaw Mair Jones, Felinfach
**Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2016/17** – **Buddugwyr** – Llanwenog; **ail fuddugol** – Mydroilyn
**Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2016/17** - Llanddeiniol

**Barnu Gwartheg Limousin**
**16 oed neu iau** – Bedwyr Siencyn, Talybont
**21 oed neu iau** – Sioned Evans, Llanddewi Brefi
**26 oed neu iau** – Dyfrig Williams, Llangwyryfon
**Unigolyn Uchaf** – Dyfrig Williams, Llangwyryfon
**Tîm buddugol** – Llanddewi Brefi

**Barnu Defaid Suffolk**
**16 oed neu iau** -Bedwyr Siencyn, Tal-y-bont
**21 oed neu iau** – Gwenno Evans, Tal-y-bont
**26 oed neu iau** – Dewi Jenkins, Tal-y-bont
Unigolyn Uchaf – Bedwyr Siencyn, Tal-y-bont
Tîm – Talybont

**Barnu Cobiau Cymreig Adran D**
**16 oed neu iau** – Ela McConochie, Felinfach
**21 oed neu iau** – Eiry Williams, Llangwyryfon
**26 oed neu iau** – Ceris James, Mydroilyn
**Unigolyn Uchaf** – Ela McConochie, Felinfach
**Tîm** – Felinfach



**Clwb Gorau yn y Barnu Stoc** – Llangeitho

## Ar ddiwedd y dydd..
1af - C.Ff.I Felinfach

2il - C.Ff.I Llanddewi Brefi

3ydd - C.Ff.I Llangwyryfon

Ewch i wefan y Sir i weld y canlyniadau yn llawn

# Y Sioe Frenhinol

"Gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau ac yn ennill tlws her Undeb Amaethwyr Cymru, mae, **CEREDIGION!**"

Mae'r Sioe Frenhinol yn meddwl cymaint i'r ffermwr. I rai mae'n gyfle i gwrdd â hen ffrindiau, yn ddihangfa o ffald y fferm neu efallai yr unig wyliau mae rhai yn ei gael! Ond mae bwrlwm a thalent y Ffermwyr Ifanc yn amlwg iawn rhwng y gwartheg a `Marks and Sparks' wrth i'r canu swynol, y chwerthin a dathlu mawr i'w glywed yn groch.




Mae'r Sir yn ymfalchïo'n y ffaith ein bod yn rhoi 100%, yn anelu am y top ac yn gwneud ein gorau glas wrth gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth ac yn amlwg, doedd eleni ddim yn eithriad. Llongyfarchiadau mawr i bob aelod wnaeth gystadlu yn ystod wythnos y Sioe a diolch yn fawr iawn i bawb am eu hymdrechion wnaeth arwain at y tlws yn dod adref unwaith eto i Geredigion!

Dyma **rhai** o ganlyniadau'r cystadlu:

**ARDDANGOSFA'R FFEDERASIWN– Cyfleu Digwyddiad Chwaraeon -**Trisant – 1af

**CNEIFIO DEFAID :** Dewi Jenkins, Talybont a S teffan Jenkins, Llanwenog – 3ydd

**CANU:** Talybont – 1af

**BRWYDR `LIP SYNC':** Llanwenog – 1af

**DYMA DY FYWYD:** Llangwyryfon – 2il

**GÊM Y CENEDLAETHAU:** Angharad Jones a Rebeca James – Llanddewi Brefi - =3ydd

**SYLWEBAETH FYW:** Gareth Jones ac Iwan Davies – Llanddewi Brefi – 1af

**GWAITH COED: Creu bwrdd picnic â lle ar gyfer cadair olwyn –** Marc James ac Osian Rees, Penparc – 1af







**BARNU DEFAID SUFFOLK:**
Tim Ceredigion – 2il
(o dan 16 – Bedwyr Siencyn – Talybont – 1af; o dan 18 – Teifion Morgan – Penparc - =8fed; o dan 21 – Gwenno Evans – Talybont – 6ed; o dan 26 – Dewi Jenkins – Talybont – =2il)

**BARNU GWARTHEG LIMOUSIN:**
Tim Ceredigion – 1af
(o dan 16 – Bedwyr Siencyn – Talybont 1af; o dan 18 – Angharad Evans – Cffl Llanddewi Brefi – 2il; o dan 21 – Sioned Evans – Llanddewi Brefi – 3ydd; o dan 26 – Dyfrig Williams, Llangwyryfon – =4ydd)

**BARNU COBIAU CYMREIG ADRAN D:**
Tim Ceredigion – 1af
(o dan 16 – Ela McConochie – Felinfach – 3ydd; o dan 18 – Ffion Williams – CFfl Llanddewi Brefi 1af; o dan 21 – Eiry Williams – Llangwyryfon – 1af; o dan 26 – Elizabeth Harries – Pontsian – 1af)

**TLWS GOFFA R.L. JONES - STOC I GYD**

**Ceredigion – 1af**




AMD
PLYMWAITH A GWRESOGI
PLUMBING & HEATING
ALED DAVIES
TEL: 07791 985 591
E BOST: AMDENQUIRIES@HOTMAIL.COM
BLAENWAUN, RHYDLEWIS, LLANDYSUL
PLYMWAITH CYFFREDINOL
ADDASIADAU YSTAFELLOEDD YMOLCHI
SYSTEMAU GWRES CANOLOG LLAWN
CYNNAL A CHADW AC ATGYWEIRIO
GWASANAETHAU BOELER OLEW
GWRESOGI DANLAWR
AR ALWAD 24 AWR

# DIWRNOD MAES C.FF.I CEREDIGION

Cynhaliwyd Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion 2017 ym Mart Tregaron ar ddydd Sadwrn, 7fed o Hydref. Mae'r diwrnod yn llawn o gystadlaethau megis Sialens ATV, Trimio Oen, Ffensio Iau a Hŷn, Addurno Torch Nadolig, Fferm Ffactor, Gyrru Tractor a Barnu Stoc gan sicrhau digon o amrywiaeth yn ystod y dydd. Dyma rhai o'r aelodau a chlybiau a ddaeth i'r brig:



Angharad Evans
Stocmon Dan 14



Beca Jenkins
Stocmon Iau



Delyth Jones
Stocmon Hyn



Cari Davies
Torch Nadolig




C.Ff.I Llangwyryfon
Clwb Buddugol Beirniadu Stoc o Dan 26




C.Ff.I Llanwenog
C.Ff.I Byw




C.Ff.I Felinfach
Clwb Buddugol Beirniadu Stoc o Dan 14




C.Ff.I Troedyraur FFerm Ffactor Iau

## Ar ddiwedd y dydd....




**Clwb Buddugol**
C.Ff.I Llangwyryfon



**Ail Fuddugol**
C.Ff.I Felinfach

Ewch i wefan y Sir i weld y canlyniadau yn llawn



# ATHLETAU, CHWARAEON A RYGBI 7 BOB OCHR Y SIR

**Llongyfarchiadau!**



Clybiau Bro'r Dderi a Pontsian ar ennill cystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr.

Clwb Bro'r Dderi a Mydroilyn yn ennill cystadleuaeth Rygbi Tag i Ferched

## Athletau'r Sir



1. Llanwenog
2. Felinfach

Cydradd 3. Caerwedros a Talybont

## Chwaraeon CFfI Cymru




Clwb Talybont yn 1af yng nghystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr â Chlwb Tregaron ar ddod yn gydradd 3ydd yng nghystadleuaeth Rownderi Iau.

## Aelod Cudd - Pwy yw'r aelod yma?

**Clwb yng Ngogledd / Canol / De y sir?** Gogledd
**Dan 16/21/26?** 26
**Pam wnest ti ymaelodi â'r C.Ff.I?** Dw i ddim yn cofio'r penderfyniad. Roedd e'n beth naturiol i'w wneud. Roedd fy mrawd i'n aelod yn barod a fy ffrindiau am ymaelodi'r un pryd.
**Beth yw dy hoff weithgaredd gyda'r mudiad?** Dwi'n hoffi diwrnod y Rali. Mae'n gyfle i grwydro i wahanol rannau o'r sir a gweld ffrwyth gwaith cymaint o aelodau. A dw i heb golli dawns y Rali ers blynyddoedd.
**Beth yw dy atgof cynta gyda'r mudiad?** Cael menthyg crys clwb lawr rhy fawr imi (maint pabell) bob tro wrth gystadlu yn fy mlwyddyn cyntaf.
**Disgrifia dy hun mewn tri gair -** Merch cefn glwad
**Pa wendidau sydd gen ti?** Siocled! Dw i'n dwlu arno fe.
**Beth yw dy eiliad balchaf gyda'r mudiad?**
Eistedd mewn sedd go arbennig, a chyfforddus iawn, yn Ynys Môn

?

**Darllenwch ymlaen i ga'l yr ateb....**

DATHLU

# C.Ff.I Llanwenog



Ym mis Mehefin daeth llond lle o aelodau, arweinyddion a chefnogwyr ynghyd i gwblhau sialens 60 milltir i ddathlu'r 60 mlynedd. Sialens â hanner! Beicio, nofio, rhedeg, rhwyfo, cerdded a thynnu tractor am gyfanswm o 60 milltir o gwmpas ein hardal. Roedd y tractor Allis Chalmers hefyd yn 60 mlwydd oed, a diolch i Elgan am gael ei benthyg hi. Tynnwyd y tractor gan raff TOW er mwyn cynrychioli'r blynyddoedd o dynnu rhaff mae'r clwb wedi gwneud. Roedd hi'n werth bob munud o ymarfer, chwysu, paratoi a threfnu oherwydd mae'n braf gennym gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi dros **£10,500** tuag at Alzheimer's Cymru. Mae'n wir i ddweud ein bod wedi derbyn cefnogaeth anhygoel wrth bawb – ffrindiau, cefnogwyr, y gymuned, busnesau, cwmnïoedd, noddwyr a llawer mwy. Rydyn ni'n werthfawrogol iawn o'r holl gymorth a chefnogaeth.
Ni fyddai'r clwb wedi gallu codi'r fath swm anrhydeddus heb eich help diflino chi.
Diolch yn fawr i chi gyd. I orffen ein dathliadau, cafwyd Diwrnod o Hwyl yn Sied Caerwenog. Llywydd y dydd oedd Mr Emyr Jones. Pinacl y diwrnod oedd y Sialens Gneifio, lle daeth 60 aelod neu gyn-aelod at ei gilydd i gneifio 60 o wyn Llanwenog. Roedd oedrannau'r cneifwyr yn amrywio- o'u hwythdegau i'w harddegau, gyda'r dynion hynaf yn rai o sefydlwyr y clwb. Braf oedd gweld amrywiaeth o gneifwyr o'r holl ddegawdau yn dod ynghyd a chwblhawyd y sialens heb broblem. Yn ystod y diwrnod hefyd cafwyd twrnament rownderi, gyda'r aelodau,



cyn-aelodau, arweinyddion, rhieni a ffrindiau'r clwb yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cystadleuaeth frwd iawn! Un o dimau'r cyn-aelodau a ddaeth i'r brig. I orffen y diwrnod cynhaliwyd Ocsiwn y Dathlu. Diolch i'r cyfranogwyr i gyd am eu rhoddion tuag at yr ocsiwn, ac mae'n braf gallu dweud ein bod wedi codi £3,525 tuag at goffrau'r clwb, gyda diolch i Fanc Barclays am eu nawdd punt am bunt. Bu'r diwrnod yn gyfle arall i edrych ar hen lyfrau cofnodion a lluniau y clwb, chwarae gemau dwl, yn gyfle i gwrdd â hen ffrindiau, i hel atgofion ac i fwynhau. Clo teilwng iawn i flwyddyn o ddathlu. Heb flewyn ar dafod, mae wedi bod yn flwyddyn i'w chofio. Ymlaen â ni at y 70!

60

## C.FF.I LLANDDEWI-BREFI 75

Fe fu aelodau, arweinyddion a ffrindiau C.Ff.I Llanddewi-Brefi yn cymryd rhan mewn sialens cerdded tri chopa uchaf Cymru sef Yr Wyddfa, Cadair Idris a Pen y Fan mewn 24 awr fel rhan o ddathliadau 75 mlynedd y clwb. Cawsom dywydd gwlyb drwy'r dydd ond er gwaetha'r tywydd fe lwyddodd pawb i gyrraedd y diwedd. Casglwyd £2,312.11 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Cyflwynwyd y siec i Ros Jones ar ran yr elusen.





Diolch o waelod calon i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw ffordd.

## Seiclo'r 75

Hoffai'r sir ddiolch i bawb wnaeth rhoi o'u hamser, arian ac amynedd i wneud y diwrnod yn un llwyddiannus



# 'IT'S A KNOCKOUT' FFORWM IEUENTID C.FF.I CEREDIGION






Noswaith llawn gemau, chwerthin a socad go-lew!

Da iawn i CFFI Felinfach ar ennill



# Taith Tractorau a Cheir Clasurol – C.Ff.I Caerwedros



Ar yr 21ain o Hydref bu aelodau o Glwb Caerwedros yn cefnogi a chymryd rhan mewn Taith Dractorau a Cheir Clasurol oedd yn dechrau o Dafarn Ffostrasol i godi arian tuag at unedau Chemotherapy Glangwili, Caerfyrddin a'r Heath yng Nghaerdydd. Trefnwyd y digwyddiad gan Delyth Hughes a'i theulu gyda cymorth Brynmor Evans a Dai John yn sgil y driniaeth y cafodd hi wrth ymladd â Leukaemia ddechrau'r flwyddyn. Cafodd £115 ei gasglu gyda'r clwb drwy ein cwrdd Diolchgarwch ac hefyd cafodd y clwb £100 tuag at yr achos drwy ddigwyddiad dathlu 150 o flynyddoedd Capel Nanternis.



Fel mam dau aelod yn Nghlwb Caerwedros (Helen a Barry), hoffai Delyth Hughes ddiolch o waelod calon ir clwb ac i bob un a wnaeth gyfrannu yn ariannol ac yn ymarferol. Cafwyd dros £11,500 ei godi at achos da iawn.

## CWPAN CYNNYDD MEWN AELODAETH C.Ff.I Tal-y-Bont



Cofiwch ddefnyddio cyfrif Twitter y Sir i hybu holl gystadlaethau neu ddigwyddiadau'r Sir! @CeredigionYFC Defnyddiwch #SteddfodCardi HEDDI!

## C.FF.I Trisant

Mae ysbryd yr her sirol - Cwrs y Cardis - wedi cydio yn nychymyg clwb Trisant eleni. Ar ddechrau blwyddyn newydd o fewn y mudiad, heidiodd dwsinau o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau'r clwb ar daith seiclo o Dregaron i Aberystwyth ddydd Sadwrn (Medi 23). Mi oedd hi'n daith o tua 25 milltir gyda'r llinell derfyn ym mythynnod gwyliau Maesbangor, Capel Bangor lle'r oedd barbeciw arbennig wedi'i drefnu.





Yn ôl Mari Davies, un o aelodau'r clwb - "er bod tipyn o'r daith ar y fflat, roedd e'n heriol iawn, ond o'n ni gyd mor falch i gyrraedd y diwedd - a dathlu wrth gwrs!"



# I BEDWAR BAN BYD

## Interrailing - Elin Calan Jones

Bues yn ddigon ffodus i gael fy newis fel un o arweinyddion taith Inter-railing C.Ff.I Cymru ym mis Awst eleni. Bu dwsin ohonom yn teithio ar drên o amgylch gwledydd Dwyrain Ewrop am gyfnod o bythefnos.



Cawsom y cyfle i ymweld â Prague, Bratislava, Budapest, Ljubljana a Zagreb, cyn gorffen y daith yn Split.

Roedd hyn yn gyfle arbennig i wneud ffrindiau newydd a ches lawer o sbort wrth ddod i adnabod aelodau eraill o'r tîm.

Gwelsom olygfeydd godidog ar hyd ein taith, o gestyll mawr canoloesol i lynnoedd anferth hyd at 358 cyfer - rwy'n credu ei bod hi'n sâff i ddweud ei bod hi ychydig yn fwy o faint na Llyn Eiddwen!



Mae teithio gyda'r C.Ff.I wedi rhoi profiadau amhrisiadwy i mi ac rwy'n annog pob aelod i fanteisio ar y cyfleoedd y mae Rhaglen Rhyngwladol C.Ff.I Cymru a'r Ffederasiwn Cenedlaethol yn eu gynnig i ni.
Peidiwch ag oedi, ewch amdani!



## Yr Alban - Rhiannon Davies & Elliw Dafydd



O geisio chwarae'r bag pipes i fwyta haggis, roedd treulio pythefnos yn yr Alban gyda mudiad y ffermwyr ifanc yn fyth gofiadwy.

Fe wnaethon dreulio'r 3 diwrnod cyntaf yn Edinburgh a'r cyffiniau yn ymweld â senedd yr Alban, y Kelpies a'r Falkirk wheel i enwi ond rhai ac yna fe aethon tua'r gorllewin i Ayrshire lle roeddwn yn sefyll gyda teuluoedd am wythnos.

Roedd ein hamser yn y sir yma yn llawn dop gyda gweithgareddau, ymweliadau a nosweithiau allan ac fe wnaethon nifer fawr o ffrindiau yn ystod ein hamser ni yno.

Pinacl y daith oedd gorffen yn y Royal Highland Show, sioe ffantasig yn cynnig rhywbeth i bawb- roedd y free drinks receptions yn ystod y sioe ddim yn wael chwaith!!!

## Rali Ewropeaidd - Angela Evans & Steffan Nutting

Mae'r Rali Ewropeaidd yn daith unigryw, gyda seremoni agoriadol yn croesawi pawb i'r Rali, gweithdai yn trafod pynciau llosg megis hawliau sifil a'r amgylchedd, nosweithiau hwylus yn llawn gemau, carioci a chymdeithasu.

Yn ystod y daith fe wnaethon ni ymweld â fferm leol oedd yn gwneud hufen iâ ei hunain, y dref lleol a blasu bwyd traddodiadol o Latfia. Y brif uchafbwynt oedd noson y bwffe rhyngwladol. Dyma'r noson ble mae pob wlad yn arddangos yr holl fwydydd a diodydd traddodiadol o'u gwledydd, Y peth mwya' rhyfedd bwytais i? Calon carw!

Roedd 18 o wledydd wedi mynychu o bob cwr o Ewrop—o'r Almaen a'r Ffindir i Armenia a Estonia, ac rwyf wedi gwneud ffrindiau oes. Rwy'n annog pob aelod i ymgeisio am daith yn ystod ei aelodaeth gyda'r CFfI!, newch chi dim dyfaru! Os allai ddisgrifio'r daith mewn 3 gair:
JOIO, JOIO, JOIO!



# Sioeau Lleol



Mae hi wedi bod yn flwyddyn ddiddorol iawn i ein sioeau lleol gyda'r elfennau yn chwarae rhan allweddol i'w llwyddiant a braf oedd gweld rhai sioeau yn cael tywydd teg ar ôl sawl blwyddyn o law. Bu nifer o aelodau'r C.Ff.I. yn weithgar iawn yn eu cymunedau eleni eto yn cystadlu, stiwardio a beirniadu o fewn eu sioeau lleol. Bu cystadlaethau C.Ff.I. yn gryf iawn ar draws y sir sydd yn dyst i ymroddiad yr aelodau. Da iawn chi! Braf oedd gallu mynychu Sioe Aberystwyth, Sioe Llambed a Sioe Aberteifi eleni gyda stondin y sir.



Ein prif atyniad eleni oedd y peintio wynebau, dwi'n siŵr eich bod wedi gweld sawl spiderman, batman a thractor yn mynd o amgylch y sioeau yma ar wynebau plant ac oedolion! Un peth yn sicr, mae Mererid Jones (Fron) yn giamstar ar wneud spiderman erbyn hyn!! Uchafbwynt i'r swyddogion oedd cael y cyfle i fynd o amgylch y Cylch yn Sioe Aberystwyth mewn Injan Stêm! Dyna beth oedd profiad gwych.

Hoffai'r sir ddiolch i bawb a wnaeth helpu a chynorthwyo yn y Sioe leol. Hebddo'ch chi ni fyddem yn gallu mynychu, mae'r sioeau yma yn le gwych i ni hysbysebu beth sydd gan ein mudiad i gynnig!

# LLWYDDIANT CENEDLAETHOL NFYFC




Clwb Trisant - Iaf - Arddangosfa Ciwb




Liz Harries, Pontsian Iaf
Tasg Milfeddygaeth
Stocmon Hyn y Flwyddyn

Llangeitho
7fed
Coginio




Chlwb Talybont -2il-Pêl-droed

Ceginau Lifestyle Kitchens Ltd
CELFI CEGIN A 'STAFELL WELY WEDI'U FFITIO, ATEGOLION CEGIN, CYFARPAR TRYDAN, TEILS WAL A LLAWR
SGWAR Y FARCHNAD, LLANYBYDDER
01570 480257
www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

# CYFARFOD CYFFREDINOL CFFI CYMRU





Wel am gyfarfod blynyddol i'w chofio yn Aberystwyth eleni! Llongyfarchiadau mawr i ni - aelodau C.Ff.I. Ceredigion ar ennill Tlws Beynon Thomas am yr adran iau orau yng Nghymru ac hefyd i'r aelodau am ennill Tlws y Western Mail - Yr Aradr, i'r Sir a'r nifer fwya' o farciau yn holl gystadlaethau'r mudiad yn ystod y flwyddyn 16-17.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Geraint Lloyd, Lledrod ar gael ei ethol yn Lywydd C.Ff.I. Cymru am y dair blynedd nesaf ac i Angela Evans, Tregaron am gael ei hethol yn gadeirydd ar y pwyllgor Rhyngwladol ac Alaw Mair Jones, Felinfach am gael ei hethol yn Is-gadeirydd ar y Fforwm Cymru am y flwyddyn nesaf. Gwych! Diolch i'r tri Cadeirydd oedd yn gorffen eu cyfnod hefyd sef Esyllt Ellis Jones, Morys Ioan a Nia Jones am eu hadroddiadau.



Ar y nos Wener, Ceredigion oedd yn trefnu'r crôl a thema'r noson oedd môr-ladron. Fel chi'n gallu gweld nath criw ohono ni fentro mas yn ein crysau-t streipiog i gasglu darnau arian aur a cymryd rhan mewn sialensau gwahanol gan ddefnyddio'r map oedd yn ein arwain ni o dafarn i dafarn ac yn y pen draw at drysor! (Sef rownd o ddiodydd oddi wrth Morys Ioan...ond welodd neb mohono fe ar ddiwedd y nosweth!)





Er hyn, gath bawb llwyth o sbort a pen tost oedd ar ddiwedd y daith i sawl un y bore wedyn!







Nôl ym mis Medi, o'dd neuadd Jiwbili Llangeitho'n llawn o aelodau a chefnogwyr y mudiad ar gyfer cyfarfod cyffredinol C.Ff.I Ceredigion. Cawsom noson dda â phobol arbennig 'di ca'l eu hethol yn swyddogion y Sir am y flwyddyn sydd i ddod! Llongyfarchiadau i'r canlynol: Cadeirydd - Mererid Jones, Is-Gadeirydd - Caryl Haf Jones, Llywydd - Euros Davies, Is-Lywydd - Milwyn Davies, Archwilydd y Sir - Eryl Jones ac Is-Drysorydd - Meira Harries.



## EIN AELOD CUDD YW— MEGAN LEWIS, C.FF.I TRISANT



Cofiwch ddilyn C.Ff.I Ceredigion ar...

C.Ff.I Ceredigion

cfficeredigion

Cffi_ceredigion_yfc

@CeredigionYFC

# NFU

## Dros y misoedd nesa 'ma...

**TACHWEDD**

| | |
|---|---|
| 2-4 | Eisteddfod y Sir–Pafiliwn Bont |
| 8 | Hyfforddiant Barnu Carcas–Dunbia |
| 12 | Cyfweliadau Teithiau Tramor C.Ff.I Cymru |
| 15 | Pwyllgorau'r Sir |
| 18 | Eisteddfod C.Ff.I Cymru - Venue Cymru, Llandudno |
| 20-24 | Wythnos Cyfnewid Clybiau |
| 24 | Chwaraeon Dan Do |
| 27-28 | Ffair Aeaf |

**RHAGFYR**

| | |
|---|---|
| 3 | Siarad Cyhoeddus Saesneg |
| 28 | Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc |

**2018**

**IONAWR**

| | |
|---|---|
| 8 | Cwis y Sir |
| 17 | Pwyllgorau Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir |
| 21 | Siarad Cyhoeddus Cymraeg |
| TBC | Cyngor ac Is-bwyllgorau C.Ff.I. Cymru |

**CHWEFROR**

| | |
|---|---|
| 18 | Cyfweliadau Aelod Hŷn ac Iau |
| 19-23 | Cystadleuaeth Pantomeim |
| 26 | Cyngerdd Pantomeim |

**Tîm Golygu:** Esyllt Ellis Jones, Morys Ioan, Elin Haf Jones, Angela Evans, Aled Davies a Steffan Rhys Nutting.

**Pob Lwc i bawb yn Eisteddfod y Sir!**

Diolch yn fawr iawn i'r noddwyr am eu rhoddion ariannol sy'n sicrhau parhad y cylchgrawn.

